Adferiad
Cefnogi Pobl • Supporting People

# Ein Maniffesto ar gyfer Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig 2024

## Beth rydym eisiau ei weld gan Lywodraeth nesaf y Deyrnas Unedig?

- **Moderneiddio Deddfwriaeth Iechyd Meddwl: Ailgyflwyno a Chryfhau y Mesur Iechyd Meddwl**
- **Blaenoriaethu Cefnogaeth ar gyfer Niwed sy'n gysylltiedig â Gamblo**
- **Integreiddio Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chyfiawnder: Agwedd Unedig ar gyfer Gwell Deilliannau**
- **Diwygio Budd-daliadau ar Frys, ar gyfer System Decach, sy'n Fwy Hygyrch**

## 1 Sicrhau bod y Ddeddfwriaeth Iechyd Meddwl yn addas i'r diben ac yn briodol ar gyfer yr 21ain ganrif

Rhwng 2022 – 2023, cofnodwyd dros 50,000 achos newydd o gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yng Nghymru a Lloegr. Er fod hyn yn dangos gostyngiad o 7% o'r flwyddyn flaenorol, mae'r nifer o achosion yn parhau i fod yn bryderus o uchel. Hefyd, mae nifer hynod anghymesur o unigolion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn cael eu cadw dan y Ddeddf bresennol. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisioes wedi derbyn bod y prosesau allan o gam gyda'r system gofal iechyd meddwl fodern. Dyma'r rheswm dros gomisiynu adolygiad Wessely, ac i Fesur Iechyd Meddwl newydd gael ei gyflwyno i Senedd y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth hon wedi methu â symud ymlaen.

**Galwn ar Lywodraeth nesaf y Deyrnas Unedig** i ailgyflwyno'r Mesur Iechyd Meddwl a fethodd i symud ymlaen yn ystod y Senedd ddiwethaf. Dylid cryfhau'r ddeddfwriaeth yma i gynnwys yr holl argymhellion o adolygiad Wessely. Rydym hefyd am weld trafodaeth rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru, a'r trydydd sector iechyd meddwl yng Nghymru i benderfynu pa agweddau o'r Ddeddf Iechyd Meddwl y dylid eu datganoli, pa rai na ellir eu datganoli, a sut y gall hawliau pobl gael eu diogelu'n well o fewn y ddeddfwriaeth.

## 2 Blaenoriaethu Cefnogaeth ar gyfer Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo

Yn arolwg 2020 YouGov ar driniaeth a chefnogaeth, roedd 13% o boblogaeth y Deyrnas Unedig â phrofiad o rhyw lefel o niwed gamblo, er fod yr union ffigwr yn debygol o fod yn sylweddol uwch. Er gwaethaf y mesurau presennol, megis cyflwyno cyfyngiadau ar gemau slot ar-lein, gwiriadau diogelwch awtomatig ar chwaraewyr, a mwy o bwerau ar gyfer y Comisiwn Gamblo, mae'r angen yn parhau am well cefnogaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng cynyddol o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Mae cynnydd yn y gefnogaeth yn hanfodol i liniaru'r materion iechyd meddwl sylweddol, gofid

ariannol, a'r costau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar gamblo, ac i amddiffyn poblogaethau sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl neu ddefnydd sylweddau, rhag ei effeithiau niweidiol. O ystyried yr achosion sylweddol a chynyddol o niwed sy'n gysylltiedig a gamblo yn effeithio ar unigolion a chymunedau ar draws y Deyrnas Unedig, mae'n rhaid gweithredu.

**Galwn ar Lywodraeth nesaf y Deyrnas Unedig** i wneud lleihau ac atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn flaenoriaeth mawr, ac i Gymru i dderbyn ei chyfran deg o gyllid o'r ardoll statudol newydd.

Gofynnwn i Lywodraeth newydd y Deyrnas Unedig i weithio'n agosach gyda Llywodraeth Cymru, i sicrhau fod gwasanaethau y GIG a'r trydydd sector yn integreiddio, yn gynhwysfawr, ac yn hygyrch ar draws Cymru. Gofynnwn am i ymchwil, ataliaeth ac addysg gael eu blaenoriaethu, gan sicrhau bod cefnogaeth ar gael, a niwed yn gysylltiedig â gamblo'n lleihau. Ar ben hynny, anogwn Lywodraeth nesaf y Deyrnas Unedig i gryfhau rheoliadau a pholisïau i hyrwyddo arferion gamblo cyfrifol, i amddiffyn poblogaethau sy'n agored i niwed, ac i ddal y diwydiant gamblo'n gyfrifol am ei rôl o ran lliniaru'r niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

## 3 Integreiddio Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chyfiawnder: Agwedd Unedig ar gyfer Gwell Deilliannau

Mae tystiolaeth elgur o'r cysylltiad rhwng troseddu a iechyd meddwl, gydag amcangyfrifon o'r nifer o bobl a effeithir yn amrywio rhwng 39% yn nalfa'r heddlu a hyd at 90% yn y carchar. Yn anffodus, yn hytrach na chael eu dargyfeirio i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol priodol, mae llawer o unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl neu gaethiwed yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, sy'n arwain at ymyleiddio ymhellach a gwaethygu eu cyflyrau. Mae'n brofiad cyffredin i bobl â salwch meddwl difrifol neu broblemau caethiwed (a'u teuluoedd a'u gofalwyr) i ddod i gysylltiad gyda'r heddlu. Gallai hyn fod oherwydd eu bod angen ymyrraeth i sicrhau eu diogelwch, neu am eu bod yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr trosedd. Weithiau, gall hyn fod oherwydd eu bod yn ymwneud â'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder eraill fel troseddwyr neu droseddwyr honedig.

**Galwn ar Lywodraeth nesaf y Deyrnas Unedig** i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion ar gyfer gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder sy'n integredig ac yn ddi-dor, fyddai'n cynnig llwybrau diogel i'r rhai mwyaf agored i niwed, yn diogelu pawb, ac yn lleihau ail-droseddu. I gyd-fynd â hyn, dylid bod gwell cydweithio rhwng y system cyfiawnder troseddol, darparwyr gofal iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau ymateb cydgysylltiedig ac effeithiol. Mae dargyfeiriad effeithiol pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a chaethiwed i mewn i wasanaethau gofal a thriniaeth o safon uchel yn arwain i well deilliannau i bobl, a chostau îs. Mae gan y trydydd sector rôl allweddol i'w chwarae, a galwn am drafodaeth genedlaethol yn Nghymru yn cynnwys yr asiantaethau cyfiawnder, GIG Cymru, asiantaethau trydydd sector a Llywodraeth Cymru i wneud y newidiadau sydd eu hangen.

## 4 Diwygio Budd-daliadau ar frys, ar gyfer System Decach, sy'n Fwy Hygyrch

Yn ôl y 'Money and Mental Health Policy Institute', mae gan bron i un ym mhob pump o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ddyledion problemus, ac mae unigolion sy'n profi problemau iechyd meddwl dair a hanner gwaith yn fwy tebygol o fod â dyledion problemus. Hefyd, mae llawer o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl neu ddibyniaeth yn wynebu anawsterau sylweddol wrth gael mynediad i ystod o fudd-daliadau lles y maent yn gymwys i'w derbyn. Gall gorfod ymdopi gyda mordwyo'r system fudd-daliadau yn ei hun effeithio ar iechyd meddwl pobl, a gall byw gyda chyflwr iechyd meddwl wneud ceisio am fudd-daliadau'n heriol. Nid yw'r broses ei hun yn hawdd i'w defnyddio, gyda llawer o'n defnyddwyr gwasanaeth yn disgrifio'r prosesau asesu ar gyfer y Taliad Annibyniaeth Personol a'r Credyd Cynhwysol fel bod yn 'ddiraddiol, yn gosbol, ac wedi ei ddylunio'n wael'.

**Galwn ar Lywodraeth nesaf y Deyrnas Unedig** i weithredu proses asesu ar gyfer y Taliad Annibyniaeth Personol ('PIP') sy'n decach ac yn fwy hygyrch, sy'n cael y cymorth i bobl yn gyflymach, ac i ddechrau ar drafodaeth genedlaethol am ddyfodol budd-daliadau lles yng Nghymru, gyda'r nod o wella bywydau y bobl sydd fwyaf agored i niwed, sydd mewn risg, ac yn dibynnu ar y 'rhwyd ddiogelwch' yma. Rydym eisiau gweld Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig yn gweithio'n agosach gyda Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector, i sicrhau bod gweinyddu budd-daliadau yng Nghymru yn fwy cefnogol o bobl, yn diwallu anghenion y rhai hynny sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl a chaethiwed yn well, ac yn darparu addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl neu'r rhai hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl tymor hir yn ystod penderfyniadau asesiadau iechyd. Ar ben hyn, galwn ar Lywodraeth nesaf y Deyrnas Unedig i sicrhau bod y budd-daliadau i bobl anabl a phobl â chyflyrau tymor hir yn codi yn flynyddol ac un unol â chwyddiant.